Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Cymwysterau Galwedigaethol

## Manyleb y Rhaglen

Mae'r fersiwn hon o'r fanyleb yn berthnasol ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2026/27.

This document is also available in English |
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg
**www.medr.cymru**

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

## Cynnwys


1. Cyflwyniad ........ 3
2. Pwrpas ........ 3
3. Trosolwg o'r Ddarpariaeth ........ 3
4. Cymhwysedd Dysgwyr a gofynion eraill ........ 5
5. Cynnwys y rhaglen ........ 5
6. Gofynion cyflwyno data ........ 6
7. Monitro ac archwilio ........ 7
8. Manylion cyswllt ........ 7
9. Atodiadau ........ 8
   - A. Cais am Gymhwyster Newydd / Diwygio ........ 8
     - Rhan 1: Cais gan Ddarparydd ........ 8
     - Rhan 2: Asesiad gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ........ 8
     - Rhan 3: Gwerthusiad gan Banel Medr ........ 8
   - B. Proses y Panel Galwedigaethol – Adolygiad o Werthoedd Cyllido ........ 9

## 1. Cyflwyniad

Mae'r Fanyleb Rhaglen hon yn amlinellu'r meini prawf ar gyfer y Sefydliadau Addysg Bellach (SABau) sy'n darparu rhaglenni Cymwysterau Galwedigaethol mewn lleoliadau gweithle. Mae'n rhoi trosolwg o ofynion y rhaglen, gan gynnwys cymhwystra dysgwyr ac amodau mynediad; mae'n manylu hefyd ar y gofynion o ran cyflwyno data a monitro fel bo modd i Medr fonitro darpariaeth a deilliannau dysgu ar gyfer y Rhaglen.

Rhaid i Gymwysterau Galwedigaethol a gyflwynir yn y gweithle fodloni'r safonau a'r amodau a sefydlwyd o fewn y fframwaith rheoleiddio sy'n esblygu gan Medr, gan gynnwys y*Telerau ac Amodau Grant, Amodau Cofrestru*, *Y Fframwaith Ansawdd*, a'r *Cod Ymgysylltu â Dysgwyr*.

Mae'r rhaglen Cymwysterau Galwedigaethol yn un o saith elfen y ddarpariaeth graidd Ran-Amser ôl-16 a ariennir gan Medr yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Addysg Sylfaenol i Oedolion (ABE) a Pharatoi am Fywyd a Gwaith (PREP)
- Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL)
- Ailsefyll TGAU (GCSE-R)
- Cymwysterau Galwedigaethol (OccQs)
- Blaenoriaethau Lleol Eraill (OLP)
- Y Cyfrif Dysgu Personol (PLA)
- Lleoliadau Profiad Gwaith (WEP)

## 2. Pwrpas

Mae'r dull o gyllido Cymwysterau Galwedigaethol yn disodli'r fethodoleg ariannu 'NVQs yn y gweithle' flaenorol yn uniongyrchol.

Nod y rhaglenni hyn yw galluogi dysgwyr i ennill cymhwysedd galwedigaethol trwy ddysgu ac asesu strwythuredig yn y gweithle. Mae Cymwysterau Galwedigaethol (OccQs) yn cefnogi dilyniant gyrfa drwy adeiladu cymhwysedd strwythuredig a gydnabyddir gan y diwydiant, sy'n galluogi dysgwyr i symud i rolau â mwy o gyfrifoldeb, gwell cyflog, ac arbenigedd cynyddol. Maent yn hwyluso datblygiad sgiliau trosglwyddadwy a phenodol i'r diwydiant sy'n hanfodol ar gyfer economi ddeinamig.

Y prif grŵp targed ar gyfer Cymwysterau Galwedigaethol yw gweithwyr sy'n datblygu sgiliau penodol i'r rôl sy'n cyd-fynd ag anghenion cyflogwyr a safonau galwedigaethol cenedlaethol. Mae hyn yn sicrhau bod dysgu yn berthnasol, o ansawdd uchel, ac yn cefnogi datblygiad a chynhyrchiant y gweithlu yn uniongyrchol.

## 3. Trosolwg o'r Ddarpariaeth

Rhaid i Sefydliadau Addysg Bellach ddangos partneriaethau gweithredol â chyflogwyr i sicrhau:

- amgylcheddau dysgu addas a diogel
- mynediad at dasgau gwaith gwirioneddol ar gyfer asesu
- goruchwyliaeth a mentora priodol

- cydweddu rolau yn y gweithle â chanlyniadau cymwysterau

Dyma'r dulliau cyflwyno cydnabyddedig:

- hyfforddiant wedi'i ymgorffori yn y gweithle
- asesu wrth y gwaith
- dysgu â chymorth i ffwrdd o'r gwaith (lle bo angen)

Gellir cymeradwyo cymwysterau ar gyfer y fethodoleg gyllido hon yn ddiofyn os oes ganddynt:

- math adolygiad 'Dynodiad' ar y gronfa ddata Cymwysterau yng Nghymru (QiW); a'r
- y 'Math o gymhwyster' wedi'i gofnodi fel “Cymhwyster Galwedigaethol”[1]; a
- ‘Is-ddibenion' wedi'u cofnodi fel “D1. Cadarnhau cymhwysedd mewn rôl alwedigaethol yn ôl y safonau gofynnol” yn unig.

Gall cymwysterau ychwanegol gael eu cymeradwyo gan banel Medr lle ceir tystiolaeth glir eu bod yn cyfrannu at flaenoriaethau cenedlaethol[2], a bod ganddynt:

- fath o adolygiad 'Arall a Reoleiddir' ar Cymwysterau yng Nghymru, neu wedi'u rheoleiddio (eu cydnabod yn swyddogol) gan Swyddfa Rheoleiddio Cymwysterau ac Arholiadau (Ofqual); a'r
- 'Math o gymhwyster' wedi'i gofnodi fel “Cymhwyster Galwedigaethol”[3]; a
- ‘Is-ddibenion' wedi'u cofnodi fel “D1. Cadarnhau cymhwysedd mewn rôl alwedigaethol yn ôl y safonau gofynnol” yn unig, ar gyfer cymwysterau a math o adolygiad 'Arall a Reoleiddir' ar QiW.

Rhaid dilyn y broses ganlynol ar gyfer pob cymhwyster a gynigir i'w gymeradwyo gan banel Medr:

- Cam 1: Cais gan Sefydliad Addysg Bellach
- Cam 2: Asesiad gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol
- Cam 3: Gwerthusiad gan Banel Medr

Cam 1: Sefydliad Addysg Bellach yn paratoi a chyflwyno'r cais i'w Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol perthynol drwy'r ffurflen gymeradwy[4].

Cam 2: Bydd y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn adolygu'r cynnig, yn asesu i ba raddau y mae'r cymhwyster yn bodloni anghenion yr economi o fewn eu rhanbarth, ac ond yn trosglwyddo'r cais i Medr os gallant roi rhesymau i gefnogi cymeradwyo'r cais.

Cam 3: Bydd Medr yn asesu'r holl geisiadau a dderbynnir ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd gan y Sefydliad Addysg Bellach a'r argymhelliad gan y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol.

Bydd canlyniadau gwerthusiad y panel yn cael eu rhannu â'r holl randdeiliaid drwy fwletin misol. Os gwrthodir cais, gall y darparydd apelio drwy gyflwyno tystiolaeth ddiwygiedig i

[1]Bydd Medr yn gwirio'r wybodaeth hon yn erbyn y manylion a gyhoeddir ar wefan swyddogol y corff dyfarnu, gan gynnwys y fanyleb gymeradwy'r cymhwyster. Lle nodir unrhyw anghysondebau, bydd cymeradwyaeth o dan y fethodoleg gyllido hon yn cael ei hatal.

[2] Y meysydd blaenoriaeth hyn yw: Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch, Digidol, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Lletygarwch a Thwristiaeth, Sero Net, a Thrafnidiaeth a Logisteg.

[3] Gweler troednodyn 1.

[4] Gweler Atodiad A.

Uwch Dîm Arwain Medr er ystyriaeth bellach. Bydd Uwch Dîm Arwain Medr yn asesu'r holl wybodaeth ac yn dod i benderfyniad terfynol[5].

## 4. Cymhwysedd Dysgwyr a gofynion eraill

I fod yn gymwys ar gyfer y rhaglen, rhaid i unigolion:
- cwrdd â’r gofynion preswylio a nodir yn y Fframwaith Cyllido Ôl-16;
- bod yn 18 oed[6] neu'n hŷn lle bo gan y cymwysterau a gyflwynir fath adolygu 'Dynodedig' ar QiW ac yn 19 oed neu'n hŷn ar gyfer pob cymhwyster a gymeradwyir gan banel; a
- bod mewn cyflogaeth (gan gynnwys hunangyflogaeth).

Ystyrir bod unigolion yn anghymwys os ydynt, ar adeg ymgeisio:
- heb fodloni'r meini prawf oedran uchod; neu
- yn mynychu addysg uwch neu addysg bellach amser llawn; neu
- yn derbyn Grant Dysgu'r Cynulliad neu Lwfans Cynhaliaeth Addysg; neu
- ar gwrs Dysgu Seiliedig ar Waith a ariennir gan Lywodraeth Cymru; neu
- yn ddi-waith; neu
- yn wladolyn tramor anghymwys.

Rhaid i'r cymwysterau hefyd fod:
- ‘ar gael i ddysgwyr'[7] pan fydd y dysgwr yn ymrestru'n wreiddiol; neu
- rhaid i'r cofrestriad gyda'r corff dyfarnu perthnasol barhau i fod yn ddilys[8] os yw'r dysgwr wedi newid i ddarparydd arall.

## 5. Cynnwys y rhaglen

Rhaid i Sefydliadau Addysg Bellach sicrhau bod Cymwysterau Galwedigaethol a gyflwynir yn y gweithle:
- bodloni safonau galwedigaethol cymeradwy;
- cyd-fynd â blaenoriaethau gweithlu Llywodraeth Cymru;
- mapio clir i ddangos sut mae'r hyfforddiant yn y gwaith yn cyd-fynd â'r meini prawf asesu.

Dylai'r rhaglenni astudio gynnwys:
- datblygu sgiliau yn y gweithle sydd wedi'u halinio â safonau galwedigaethol;
- asesu cymhwysedd ymarferol;
- datblygu gwybodaeth drwy weithgareddau strwythuredig;
- tasgau dysgu a gefnogir gan gyflogwyr.

Dylai Cymwysterau Galwedigaethol alluogi dysgwyr llwyddiannus i symud ymlaen i:

---
[5] Am y broses adolygu gwerthoedd cyllido, gwiriwch Atodiad B.
[6] Dylid dilysu'r maen prawf oedran wrth ddechrau'r cwrs.
[7] Ni ddylai'r 'dyddiad dechrau terfynol Dynodiad/ Cymeradwyaeth Nodweddiadol o QiW na'r 'Dyddiad dechrau gweithredol' fod wedi mynd heibio.
[8] Ni ddylai'r 'Dyddiad Gorffen Ardystiad Dynodiad/Cymeradwyaeth' gan QiW na'r 'Dyddiad ardystio terfynol' a sefydlwyd ar Ofqual fod wedi mynd heibio.

- gymwysterau galwedigaethol lefel uwch – sy'n eu galluogi i barhau i ddatblygu sgiliau ac arbenigo;
- fframweithiau prentisiaeth llawn – gan ddarparu llwybr di-dor i ddysgu strwythuredig yn seiliedig ar waith;
- cydnabyddiaeth broffesiynol neu rolau goruchwylio – cefnogi datblygiad gyrfa a chynnydd yn y gweithle.

Rhaid i ddarparwyr ddiffinio deilliannau clir, mesuradwy yn unol â safonau galwedigaethol. Rhaid i ddeilliannau gynnwys:

- deilliannau gwybodaeth – rhaid i ddysgwyr ddangos dealltwriaeth o:
    - arferion y diwydiant
    - rheoliadau a diogelwch yn y gweithle
    - offer, cyfarpar a gweithdrefnau
    - damcaniaethau penodol i'r rôl
- deilliannau sgiliau - rhaid i ddysgwyr ddangos cymhwysedd galwedigaethol drwy:
    - cwblhau tasgau yn y gweithle yn annibynnol
    - cymhwyso damcaniaeth i gyd-destunau'r byd go iawn
    - defnyddio offer a chyfarpar yn ddiogel
    - datrys problemau'n gysylltiedig â'r swydd
- ymddygiadau – rhaid i ddysgwyr ddangos ymddygiadau proffesiynol sy'n briodol i ddiwylliant y gweithle a safonau'r sector

## 6. Gofynion cyflwyno data

Bydd Medr yn defnyddio data o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) i fonitro darpariaeth rhaglenni a deilliannau dysgu ar gyfer Cymwysterau Galwedigaethol.

Yn unol â'r amodau a nodir yn y *Telerau ac Amodau Grant* blynyddol, rhaid i Sefydliadau Addysg Bellach gyflwyno data dysgwyr cywir ac amserol. Mae data yn cefnogi dyraniadau cyllid, gwaith monitro a dadansoddi sectorau.

Mae Llawlyfr Cymorth Defnyddwyr LLWR[9] yn nodi'r canllawiau y dylai darparwyr eu dilyn wrth gyflwyno data LLWR ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol.

Mae'r codau rhaglen a restrir isod (LP74) ar gael drwy'r fethodoleg gyllido Cymwysterau Galwedigaethol:

| | |
|---|---|
| 9001EXXV | Cymwysterau Galwedigaethol (Is-haen 1) |
| 9001KXXV | Cymwysterau Galwedigaethol (Is-haen 2) |
| 9001FXXV | Cymwysterau Galwedigaethol (Is-haen 3) |
| 9001LXXV | Cymwysterau Galwedigaethol (Is-haen 4) |
| 9001GXXV | Cymwysterau Galwedigaethol (Is-haen 5) |
| 9001HXXV | Cymwysterau Galwedigaethol (Is-haen 6) |
| 9001IXXV | Cymwysterau Galwedigaethol (Is-haen 7) |
| 9001JXXV | Cymwysterau Galwedigaethol (Is-haen 8) |
| 9000AXXV | Cymwysterau Galwedigaethol (1-34 credyd) |
| 9001AXXV | Cymwysterau Galwedigaethol (35-45 credyd) |
| 9001BXXV | Cymwysterau Galwedigaethol (46-60 credyd) |

[9]Gweler Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR).

| | |
|---|---|
| 9001CXXV | Cymwysterau Galwedigaethol (61-90 credyd) |
| 9001DXXV | Cymwysterau Galwedigaethol (91+ credyd) |

## 7. Monitro ac archwilio

Bydd monitro ac archwilio yn cyfrannu at sicrhau bod y canllawiau'n cael eu cymhwyso mewn modd cyson ac yn helpu i asesu a yw polisïau, gweithdrefnau a rheolaethau'n ddigonol.

Canolbwyntir ar y meysydd canlynol wrth fonitro:

- cydymffurfio â manylebau'r rhaglen; a
- deilliannau dysgu'r rhaglen.

Cyflawnir hyn drwy fonitro ar ddiwedd blwyddyn; ymarfer paru data; a phrofion archwilio manwl o ddysgwyr ar raglenni Cymwysterau Galwedigaethol.

Bydd Medr yn defnyddio'r data a gyflwynir drwy'r LLWR i fonitro cydymffurfiaeth â manyleb y rhaglen. Bydd hyn yn cynnwys:

- monitro elfen y gweithle drwy defnyddio data *LP12* ac *LP13;* a
- monitro data o setiau data'r rhaglen a'r gweithgarwch i wirio bod gofynion darparu yn cael eu bodloni.

Bydd canlyniadau ar gyfer gweithgareddau dysgu asesadwy a gynhelir fel rhan o'r rhaglen yn cael eu hadrodd drwy'r mesurau cyflawniad, rhan o'r Mesurau Perfformiad Cyson ar gyfer Dysgu Ôl-16 a byddant yn cael eu cynnwys yn yr adroddiadau ar gyflawniad a gyflwynir i Sefydliadau Addysg Bellach.

Mae dilyniant a chyrchfannau dysgwyr yn fesur perfformiad allweddol ar gyfer y rhaglen ac yn hollbwysig wrth werthuso darpariaeth y rhaglen. Mae Medr yn parhau i ddatblygu ei adroddiadau ar ddilyniant a chyrchfannau dysgwyr yn seiliedig ar ddata cysylltiedig, a bydd adroddiadau ar y rhaglen yn cael eu hymgorffori yn y mesurau hyn yn y dyfodol.

Yn ogystal â'r dull monitro a nodir uchod, bydd data a ddychwelir gan sefydliadau Addysg Bellach yn ddarostyngedig i ofynion archwilio diwedd blwyddyn presennol[10]. Yn rhan o hyn, rhoddir pwyslais neilltuol yn y *Nodiadau Cyfarwyddyd i Archwilwyr* er mwyn sicrhau bod archwilwyr allanol yn profi samplau priodol o ddysgwyr sy'n dilyn y rhaglenni Cymwysterau Galwedigaethol.

## 8. Manylion cyswllt

Ar gyfer unrhyw ymholiadau'n gysylltiedig â chynnwys y Fanyleb Rhaglen hon, cysylltwch: buddsoddiadamonitro@medr.cymru.

[10] Cyhoeddir y gofynion archwilio ar gyfer y flwyddyn gyfredol ar ddiwedd y flwyddyn academaidd.

## 9. Atodiadau

### *A. Cais am Gymhwyster Newydd / Diwygio*

**Rhan 1: Cais gan Ddarparydd**

| **1(a) Enw'r Darparydd** | |
|---|---|

| **1(b) Teitl y Cymhwyster** | |
|---|---|

| **1(c) Dolen i'r Cymhwyster ar wefan y Corff Dyfarnu** | |
|---|---|

| **1(ch) Is-haen Gyllido Arfaethedig** | |
|---|---|

| **1(d) Tystiolaeth o Angen** |
|---|
| *Dylech gynnwys tystiolaeth o wybodaeth am y farchnad lafur neu drwy ddulliau eraill.* |

| **1(dd) Tystiolaeth o Ragolygon Cyflogaeth a Dilyniant** |
|---|
| *Dylech gynnwys tystiolaeth o'r mathau o swyddi sydd ar gael i gyfranogwyr ar ôl iddynt ennill y cymhwyster, a nifer y swyddi hynny. Beth yw'r dilyniant o ran cyflogaeth?* |

| **1(e) Dull sy'n Canolbwyntio ar Ryw** |
|---|
| *Pa ystyriaeth a roddwyd i'r modd y bydd gweithrediad ymarferol a darpariaeth y cwrs hwn yn effeithio ar wahanol ryweddau?* |

| **1(f) Gwybodaeth Ychwanegol** |
|---|
| *Cadarnhewch unrhyw dystiolaeth ategol arall, os oes peth ar gael.* |

**Rhan 2: Asesiad gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol**

| **2(a) Tystiolaeth o Angen** |
|---|
| *Sut mae'r cymhwyster yn mynd i'r afael â phrinder sgiliau / y galw o ran cyflogaeth yn y rhanbarth?* |

| **2(b) Gwybodaeth Ychwanegol** |
|---|
| *Cadarnhewch unrhyw wybodaeth ategol arall, os oes peth ar gael.* |

**Rhan 3: Gwerthusiad gan Banel Medr**

| **3(a) Asesiad y Panel** |
|---|
| *A yw'r cymhwyster cyd-fynd â'r sectorau â blaenoriaeth? A yw'n rhoi'r sgiliau angenrheidiol i unigolion ar gyfer y diwydiant? A yw'r wybodaeth ynghylch y dystiolaeth o angen, a ddarparwyd gan y darparydd a'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, yn bodloni gofynion y rhaglen? A yw'r dystiolaeth o gyflogaeth a dilyniant wedi'i diffinio'n glir ac yn* |

*gyson ag amcanion y rhaglen? A ystyriwyd y dull sy'n canolbwyntio ar rywedd? A ystyrir bod yr haen gyllido a awgrymwyd yn addas? Unrhyw sylwadau ychwanegol?*

## *B. Proses y Panel Galwedigaethol – Adolygiad o Werthoedd Cyllido*

Yn ogystal â chyflwyno ceisiadau am raglenni newydd, gall Sefydliadau Addysg Bellach (SABau) nodi achosion lle nad yw'r haen gyllido bresennol ar gyfer cymhwyster cymeradwy bellach yn briodol neu'n ddichonadwy yn ariannol. Mewn achosion o'r fath, gall darparwyr gyflwyno cais i banel Medr adolygu gwerth presennol y rhaglen.

### Cam 1 – Cyflwyniad gan y SAB i Medr

Rhaid i'r SAB lenwi ffurflen *Cais am Gymhwyster Newydd / Diwygio* (Atodiad A) Ar gyfer ceisiadau adolygu haen gyllido, rhaid i'r cyflwyniad gynnwys yr wybodaeth ganlynol:

- teitl y cymhwyster a'r haen gyllido bresennol;
- yr haen gyllido ddiwygiedig a gynigir;
- cyfiawnhad clir dros y newid a gynigir, wedi'i ategu gan dystiolaeth fanwl, fel dadansoddiad o gostau, gwybodaeth am y farchnad lafur, adborth gan gyflogwyr, a darpariaeth debyg;
- asesiad o unrhyw effeithiau posibl ar fynediad dysgwyr ac/neu ddichonadwyedd rhaglenni.

### Cam 2 – Adolygiad a Phenderfyniad gan Banel Medr

Yng nghyfarfod misol nesaf panel Medr (a gynhelir ar drydydd dydd Mawrth bob mis), bydd y panel yn ystyried y cais ochr yn ochr â'r ffactorau canlynol:

- dadansoddiad o'r farchnad lafur genedlaethol a rhanbarthol;
- cysondeb dulliau cyllido ledled Cymru;
- nodau presennol y rhaglen; a'r
- effeithiau ar werth cyhoeddus a deilliannau dysgwyr.

Gall y panel benderfynu:

- cymeradwyo'r haen gyllido ddiwygiedig;
- gwrthod y cais, gan roi sail resymegol glir;
- gofyn am dystiolaeth ychwanegol; neu
- ohirio'r penderfyniad er mwyn ystyried polisi ehangach. Mewn achosion o'r fath, bydd y cais yn cael ei gyfeirio i sylw Uwch Dîm Arwain (UDA) Medr i'w ystyried ymhellach.

Bydd canlyniad adolygiad y panel yn cael ei rannu â'r SAB drwy e-bost o fewn mis, a chyda'r sector drwy'r bwletin misol dilynol.

### Cam 3 – Ailgyflwyno ar ôl Gwrthod (Dewisol)

Pan wrthodir cais am adolygiad haen gyllido yn dilyn ystyriaeth yr UDA, ni chaiff SABau ond ailgyflwyno'r cais pan fydd tystiolaeth newydd neu llawer cryfach ar gael.

Ar ôl i gymhwyster gael ei gymeradwyo gan y panel, bydd yr wybodaeth hon yn cael ei throsglwyddo i'r timau LLWR perthnasol yn Medr a Llywodraeth Cymru er mwyn gwneud y newidiadau i dablau chwilio perthnasol yr LLWR. Mae Medr yn monitro'r Gronfa ddata cymwysterau yng Nghymru bob mis i sicrhau bod unrhyw gymwysterau newydd neu wedi'u diweddaru wedi'u hadlewyrchu yng nghronfa ddata LLWR.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru


2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ



Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**